Ymateb ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon, Ymchwiliad i unigrwydd ac unigedd

---

Hoffwn ddiolch i'r Pwyllgor am ei waith pwysig ar unigrwydd ac unigedd, materion sy'n cael cydnabyddiaeth haeddiannol fel materion o bwysigrwydd cenedlaethol yn nhermau sicrhau'r iechyd, llesiant ac ansawdd bywyd gorau i bobl yng Nghymru.

Mae Llywodraeth Cymru wedi arwain y ffordd wrth ddeddfu i hybu a diogelu llesiant, yn awr ac yn y dyfodol, drwy Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae'r deddfau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus ystyried llesiant ehangach pobl wrth ddarparu gwasanaethau, meddwl yn fwy am yr hirdymor, cydweithio'n well â'i gilydd a chyda chymunedau, ceisio atal problemau rhag codi neu sefyllfaoedd rhag dwysáu a defnyddio dull gweithredu mwy cydgysylltiedig. Mae pob un o'r elfennau hyn yn hollbwysig wrth ddatblygu ymateb rhesymegol, cyfannol a hirdymor i unigrwydd ac unigedd yng Nghymru.

Yr hyn y mae'n rhaid inni ei wneud yn awr yw sicrhau ein bod yn adeiladu ar y seiliau hyn a'r enghreifftiau amrywiol o waith sydd eisoes yn cael ei wneud ar draws y sectorau cyhoeddus a phreifat i ymgorffori atebion ystyrlon ac ymarferol ym mhob rhan o Gymru ac i bawb sydd eu hangen. Bydd ein strategaeth genedlaethol, *Ffyniant i Bawb* yn helpu i wneud hyn drwy ddefnyddio egni ac adnoddau'r sector cyhoeddus cyfan i gyflawni'r dasg hon a thrwy fanteisio ar bob cyfle i gefnogi a datblygu'r cymunedau, sy'n rhywbeth y y bydd llwyddiant y strategaeth yn dibynnu arno.

Mae'r Ymatebion Manwl i argymhellion yr adroddiad wedi'u nodi isod:

Argymhelliad 1: *Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn adolygu'r amserlen ar gyfer datblygu ei strategaeth i fynd i'r afael ag unigrwydd ac unigedd, gyda'r bwriad o'i chyhoeddi cyn 2019.*

Ymateb: Derbyn yn Rhannol

Mae adroddiad y pwyllgor yn cyfleu'n gadarn faint, cymhlethdod ac ehangder y problemau sy'n gallu arwain at bobl yn teimlo unigrwydd neu unigedd yng Nghymru. Er bod yr adroddiad yn cyfeirio at bobl hŷn, a'r grŵp oedran 80 a hŷn yn benodol, mae hefyd yn cydnabod y gall hyn effeithio ar nifer o grwpiau eraill hefyd.

O ystyried maint ac ehangder y broblem, pennwyd y dyddiad cyhoeddi arfaethedig o 2019 er mwyn caniatáu digon o amser ar gyfer y gwaith ymchwil a dadansoddi sylweddol angenrheidiol a fyddai'n sefydlu'r camau gweithredu cywir i'w cymryd yn genedlaethol a lleol i fynd i'r afael â'r broblem amlochrog hon. Mae'r pwyllgor ei hun wedi gwneud argymhellion ar yr angen am waith

ymchwil a gwerthuso pellach. Mae'r dyddiad cyhoeddi hefyd yn caniatáu cyfnod ymgynghori ffurfiol a fydd yn rhoi cyfle i bobl Cymru leisio eu barn.

Fodd bynnag, bydd yr amserlen gyhoeddi yn cael ei hadolygu'n rheolaidd. Fel rhan o hyn bydd y llywodraeth yn defnyddio dull sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau er mwyn pennu cyfeiriad a chytuno ar gamau gweithredu cyn 2019. Mae'n debygol y bydd camau gweithredu o'r fath yn y meysydd hynny lle mae consensws yn barod neu lle mae cyfle i wella neu roi ffocws newydd i waith sy'n mynd rhagddo eisoes er mwyn helpu i fynd i'r afael ag achosion o unigrwydd ac unigedd yn amserol.

Goblygiadau Ariannol: Nid oes unrhyw gostau ychwanegol yn deillio o dderbyn yr argymhelliad hwn.

Argymhelliad 2*: Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn mabwysiadu dull trawsadrannol at ei strategaeth ar unigrwydd ac unigedd er mwyn gwneud y mwyaf o gyfraniad pob maes polisi. I'r perwyl hwnnw, dylai'r Strategaeth Dementia Genedlaethol a'r Cynllun Gweithredu Strategol i Ofalwyr gynnwys cyfeiriad penodol at fynd i'r afael ag unigrwydd ac unigedd.*

Ymateb: Derbyn

Mae unigrwydd ac unigedd yn fater iechyd cyhoeddus a all effeithio ar lawer o grwpiau o bobl ar gyfnodau gwahanol yn ystod eu bywydau. Gall unigrwydd ac unigedd arwain at salwch ac yn yr un modd, mae pobl sydd eisoes yn profi iechyd gwael neu sy'n derbyn gofal a chymorth, yn llawer mwy tebygol o ganfod eu hunain yn dioddef unigrwydd neu unigedd. Mae angen i'r atebion gynnwys mesurau ataliol, y mae llawer ohonynt yn ymwneud ag ymgysylltiad a chydlyniad cymunedol, yn hytrach na chynigion iechyd neu ofal cymdeithasol traddodiadol. Felly, dod â'r holl asiantaethau ynghyd i fynd i'r afael â'r achosion a'r effeithiau niweidiol ehangach i'r unigolyn a'r cymunedau dan sylw yw'r unig ffordd i fynd i'r afael ag effeithiau amrywiol y mater hwn, a chanddynt wreiddiau dwfn.

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei strategaeth genedlaethol, *Ffyniant i Bawb* ym mis Medi y llynedd. Mae'r strategaeth yn cyflwyno ymrwymiadau'r Llywodraeth o Dan *Symud Cymru Ymlaen* mewn cyd-destun hirdymor, ac mae'n nodi sut y byddant yn cael eu cyflenwi mewn ffordd fwy synhwyrol a chydlynus, sy'n croesi ffiniau traddodiadol, y tu mewn a'r tu allan i'r llywodraeth. O ganlyniad, bydd yn sail ar gyfer symud y gwaith ar unigrwydd ac unigedd yn ei flaen, drwy ddatblygu ymateb sy'n manteisio i'r eithaf ar botensial y meysydd polisi ac sy'n cysylltu gwaith mewn meysydd cysylltiedig, gan gynnwys dementia ac anghenion gofalwyr. Yn yr un modd, bydd yn bwysig sicrhau bod y gwaith sy'n cael ei wneud i hybu cynhwysiant cymdeithasol a datblygu cymorth cymunedol yn cael ei ymgorffori yn y dull gweithredu.

Goblygiadau Ariannol: Nid oes unrhyw gostau ychwanegol yn deillio o dderbyn yr argymhelliad hwn.

Argymhelliad 3: *Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ymgymryd neu'n comisiynu gwaith i asesu effaith unigrwydd ac unigedd ar iechyd a llesiant ac a yw pobl sy'n profi'r problemau hyn yn gwneud defnydd cynyddol o wasanaethau cyhoeddus. Gellid defnyddio canlyniadau'r gwaith i gryfhau'r achos economaidd ar gyfer gwasanaethau i atal unigrwydd ac unigedd.*

Ymateb: Derbyn

Canolbwynt gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer darparu gofal cymdeithasol a gwasanaeth iechyd yng Nghymru yw atal ac ymyrraeth gynnar, a cheir tystiolaeth o hyn yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ac egwyddorion gofal iechyd darbodus. Yn y cyfamser, mae *Ffyniant i Bawb* yn pwysleisio bod ein cymunedau yn ased cenedlaethol, ac y bydd Llywodraeth Cymru yn buddsoddi i'w hailgysylltu a chreu gwlad fwy unedig a chysylltiedig.

Dull cyfannol a blaengar o'r fath yw'r ffordd orau o gyflawni canlyniadau llesiant gwell i bobl sy'n gallu cadw eu hannibyniaeth a chyfranogi'n llawn yn eu cymuned, mewn gwaith ac mewn cymdeithas. Mae osgoi dwysâd yn anghenion pobl, i'r pwynt lle maent yn rhai cronig a hirdymor (boed hynny'n anghenion meddygol neu anfeddygol) hefyd yn elfen ganolog o leihau pwysau y gellir eu hosgoi ar y gwasanaethau cyhoeddus.

Mae'r enghreifftiau a roddwyd gan Brosiect Eden o'r costau sy'n deillio o unigrwydd ac unigedd yng Nghymru yn ei dystiolaeth i'r pwyllgor yn cyfleu darlun llwm. Bydd yr ymchwil hwn a mathau eraill o ymchwil yn cael eu hategu drwy gomisiynu ymchwil penodol, annibynnol ar y defnydd a wneir o'r gwasanaethau cyhoeddus gan bobl sy'n profi unigrwydd ac unigedd a chostau cysylltiedig hyn. Mae gwaith ymchwil o'r fath yn hollbwysig er mwyn datblygu polisi cadarn ar sail tystiolaeth.

Goblygiadau Ariannol: Defnyddir y cyllid a nodwyd eisoes i dalu am y goblygiadau ariannol sy'n deillio o'r argymhelliad hwn.

Argymhelliad 4: *Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r sector gwirfoddol a llywodraeth leol i sicrhau'r sefydlogrwydd cyllid sydd ei angen gan sefydliadau'r sector gwirfoddol i barhau i ddarparu gwasanaethau cymorth hanfodol i bobl sy'n dioddef unigrwydd ac unigedd trwy gyflwyno rhaglenni cyllido tair blynedd.*

Ymateb: Derbyn yn rhannol

O dan fersiwn presennol y *Cod Ymarfer ar gyfer Ariannu'r Trydydd Sector* mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i sicrhau deialog cynnar ac adeiladol ar gynigion cyllido ac i roi hysbysiad o benderfyniadau cyllido yn y dyfodol o leiaf dri mis cyn i unrhyw gytundeb presennol ddod i ben. Mae'r cod hefyd yn nodi'r egwyddor o *sicrwydd cyllid*, gan gydnabod, mewn hinsawdd o leihau adnoddau ac angen cynyddol, bod sicrwydd cyllid yn fater pwysig ar draws pob sector. Er y gall dialog parhaus helpu i leihau ansicrwydd ac unrhyw amhariad dilynol ar wasanaethau, mae Llywodraeth Cymru hefyd yn

cydnabod y gall cyllid tymor byr gostio mwy weithiau yn weinyddol ac felly gwneir ymrwymiadau cyllido tymor hwy pan fydd hynny'n bosibl ac yn briodol.

Fodd bynnag, wrth dderbyn argymhelliad y pwyllgor mewn egwyddor, bydd y dull o fynd i'r afael ag unigrwydd ac unigedd a ddatblygir yn cynnwys gwaith pellach gyda'r sector gwirfoddol a llywodraeth leol i benderfynu beth arall y gellir ei wneud i sefydlu sefydlogrwydd ariannol i'r gwasanaethau allweddol, sy'n mynd i'r afael â'r materion a godwyd gan y pwyllgor. Bydd hyn yn cynnwys ystyried y posibilrwydd o ddyrannu'r arian sy'n cael ei ddarparu drwy ffrydiau cyllid, megis y Gronfa Gofal Integredig am gyfnod hwy na blwyddyn.

Dylid nodi, fodd bynnag, y gallai symud tuag at drefniadau cyllido tymor hwy arwain at ostyngiad yn y gallu i ymateb i bwysau sy'n dod i'r amlwg yn flynyddol oherwydd cyfyngiadau i'r cyllid cyffredinol sydd ar gael a'r posibilrwydd y bydd cyfran uwch o'r cyllid hwnnw'n cael ei ymrwymo am dymor hwy.

Goblygiadau Ariannol: Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol uniongyrchol yn deillio o'r argymhelliad hwn.

Argymhelliad 5: *Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ymgymryd â gwerthusiad i asesu effaith cyswllt rhwng cenedlaethau ar bobl sy'n profi unigrwydd ac unigedd. Os yw'r gwerthusiad yn amlygu manteision cysylltiad o'r fath, dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod arfer gorau yn y maes hwn yn cael ei gyflwyno ledled Cymru.*

Ymateb: Derbyn

Hyrwyddir cysylltiadau sy'n pontio'r cenedlaethau yng Nghymru drwy fenter ar y cyd rhwng y Comisiynydd Plant a'r Comisiynydd Pobl Hŷn sy'n ceisio annog ysgolion a grwpiau o bobl hŷn i sefydlu grwpiau sy'n Pontio'r Cenedlaethau. Mae hyn yn cydnabod bod gan bobl hŷn a phobl ifanc lawer iawn i'w gynnig i'w gilydd drwy rannu eu gwybodaeth a'u profiadau a threulio amser gyda'i gilydd.

Mae gweithgareddau sy'n cynnwys partneriaethau rhwng ysgolion a chartrefi gofal neu grwpiau o bobl ifanc a phobl hŷn yn rhyngweithio â'i gilydd hefyd yn helpu i ddileu rhwystrau, chwalu ystrydebau a hybu dealltwriaeth ar draws y cenedlaethau. Gall hyn gyfrannu at y cymunedau cryf sydd eu hangen i fynd i'r afael ag unigrwydd ac unigedd.

Bydd dull gweithredu Llywodraeth Cymru yn ceisio asesu ac esbonio'n gliriach y manteision yn sgil cymryd rhan mewn gweithgareddau o'r fath, gyda'r bwriad o gasglu tystiolaeth o'r gwerth y gellir ei gyflawni drwy eu hyrwyddo a'u cefnogi ymhellach ar hyd a lled Cymru gyfan.

Goblygiadau Ariannol: Defnyddir y cyllid a nodwyd eisoes i dalu am y goblygiadau ariannol sy'n deillio o'r argymhelliad hwn.

Argymhelliad 6: *Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ymgymryd ag ymgyrch codi ymwybyddiaeth i newid agweddau tuag at unigrwydd ac unigedd a mynd i'r afael â'r stigma sy'n gysylltiedig ag ef. Dylai'r ymgyrch hon dynnu sylw at y cyfoeth o gyngor a chefnogaeth sydd ar gael eisoes a defnyddio ystod eang o ddulliau cyfathrebu i sicrhau nad yw pobl nad ydynt yn gallu mynd ar-lein dan anfantais.*

Ymateb: Derbyn

Er bod unigrwydd ac unigedd wedi cael mwy o sylw cenedlaethol drwy waith grwpiau sy'n cynnwys yr Ymgyrch Trechu Unigrwydd, Age UK a'r Groes Goch Brydeinig, mae gwaith i'w wneud o hyd i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd ac mae gan Lywodraeth Cymru rôl allweddol yn hyn o beth.

Mae syniad y cyhoedd o'r hyn mae'n ei olygu i ddioddef unigrwydd neu unigedd a sut y gallai hyn effeithio ar unrhyw un yn ystod eu bywydau, yn ogystal â dealltwriaeth o'r mathau o gymorth sydd ar gael a'r rôl y gallai unigolion, grwpiau a chymunedau ei chyflawni o ran mynd i'r afael â'r materion hyn, i gyd yn agweddau pwysig ar gyfer mynd i'r afael â'r stigma a nodwyd gan y pwyllgor yn ei adroddiad. Felly, fel rhan o'i gynllun i fynd i'r afael â'r materion cenedlaethol hyn, bydd Llywodraeth Cymru yn datblygu ymgyrch ymwybyddiaeth y cyhoedd.

Wrth wneud hyn bydd yn adeiladu ar y gwersi a ddysgwyd o *Amser i Newid Cymru*, yr ymgyrch genedlaethol gyntaf i ddiddymu'r stigma a'r gwahaniaethu y mae pobl â phrofiad o broblemau iechyd meddwl yn eu hwynebu yng Nghymru ac sy'n ceisio ysgogi newidiadau drwy amrediad o ddulliau cyfathrebu amrywiol.

Goblygiadau Ariannol: Defnyddir y cyllid a nodwyd eisoes i dalu am y goblygiadau ariannol sy'n deillio o'r argymhelliad hwn.